Dydd Mawrth 24 Tachwedd 2009

Datganiad newyddion

Ffermydd Mynyddoedd Cambrian yn canfod beth yw eu hôl troed carbon

Hyd yn oed yn ardaloedd mwyaf anghysbell cefn gwlad Cymru, mae pobl yn dechrau meddwl sut y gallwn i gyd gyfrannu at yr hyn y bydd yn rhaid digwydd ar ôl Cynhadledd Hinsawdd Copenhagen ym mis Rhagfyr.

Mae dros 20 o ffermwyr sy'n ffermio ar Fynyddoedd Cambrian yn cyfrannu at gynllun arloesol fydd yn cyfrifo ôl troed carbon y gweithgareddau ar eu ffermydd. Bydd hyn wedyn yn arwain at ddarparu cyngor ar sut y gellir lleihau allyriadau carbon.

Mae'r cynllun yn rhan o Fenter Mynyddoedd Cambrian, prosiect sy'n gweithio gyda ffermwyr lleol i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yng nghefn gwlad drwy gyfrwng y safonau rheoli amgylcheddol uchaf.

Bydd Steven Bradley, Swyddog Prosiect Mynyddoedd Cambrian gyda'r Cyngor Cefn Gwlad yn ymweld â'r ffermydd drwy gydol mis Tachwedd. Meddai Steven: "Mae'r gwaith hwn ar bennu ôl troed carbon yn ymestyn cwmpas y dull cyfredol o bennu ôl troed carbon ffermydd i gynnwys amrywiaethau o lefel carbon mewn priddoedd amaethyddol a llystyfiant naturiol ar ffermydd, yn ogystal ag ystyried ôl troed carbon bwydydd a gwrteithiau a brynir ar gyfer y fferm. Bydd darlun mwy cyflawn o'r rôl sydd gan y broses o reoli tir a ffermydd mewn lleihau allyriadau yn dod i'r amlwg."

Bydd y dadansoddiad o'r ôl troed, sy'n cael ei wneud gan Brifysgol Bangor, yn rhoi awgrymiadau ar sut i leihau ôl troed pob fferm.

Ychwanegodd Steven: "Rydym wrth ein bodd fod y gymuned ffermio wedi croesawu'r prosiect hwn. Os bydd arbedion sylweddol – o ran yr allyriadau a

ryddheir a hefyd manteision ariannol, gobeithiwn y gellir ymestyn y cynllun i ardaloedd eraill."

Meddai Gwern Evans, Rheolwr Busnes Menter Mynyddoedd Cambrian: “Mae mynyddoedd Cambrian eisoes yn rhanbarth a gysylltir â chynhrychu bwyd o safon uchel. Mae cyfle yn fan hyn i ddatblygu cyfleoedd lle gallwn gryfhau enw da yr ardal o ran cynaladwyedd ein cynnyrch. Dwi’n gobeithio y bydd canfyddiadau’r cynllun yma’n dangos fod cynnyrch y fro yn cael eu cynhyrchu’n gynaladwy yn ogytal â bod yn flasus. Byddwn yn defnyddio’r gwaith ymchwil yma I ddod o hyd I ffyrdd newydd o leihau ôl troed carbon byd amaeth yr ardal.”

Mae menter Mynyddoedd Cambrian yn brosiect partneriaeth a gefnogir gan Lywodraeth y Cynulliad, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Elusennau’r Tywysog, Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, CADW, y Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd, ac awudrodau lleol sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys. Mae’r Fenter yn dod â gwaith cymunedol, a chynlluniau yn y sector gyhoeddus, breifat a gwirfoddol at ei gilydd.

Diwedd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Helen Evans, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar 01248 387377 neu 07717225589. h.evans@ccw.gov.uk *Gellir trefnu cyfweliadau efo ffermwr sy’n cymryd rhan yn y cynllun.*

Mwy am Gynllun Mynyddoedd Cambrian:
Nod y Fenter yw datblygu gwerth ac enw da mynyddoedd Cambrian; cysylltu cynhyrchwyr lleol gyda marchnadoedd; hybu’r fro i dwristiaid; gwarchod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig; a datblygu marchnadoedd ar gyfer gwasanaethau eco-systemau. Drwy raglen integreiddiedig, bydd y gweithgareddau yma’n bywiocau agweddau cymdeithasol a diwylliannol y fro gan fod o gymorth i gadw pobl ifainc mewn cymunedau lleol a sicrhau dyfodol cynaladwy i Fynyddoedd Cambrian.

Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru’n gorff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, yn gweithio dros Gymru well lle bydd pawb yn gwerthfawrogi ac yn gofalu am ein hamgylchedd naturiol. Mae mwy o wybodaeth am ein gwaith i’w gweld yn www.ccw.gov.uk